

Therapi ymbelydredd mewnol dethol ar gyfer tiwmorau niwroendocrin sydd wedi metastaseiddio i'r afu/iau

16 Mai 2024

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda a gellir ei defnyddio ar gyfer tiwmorau niwroendocrin sydd wedi metastaseiddio i'r afu/iau. Gall cymhlethdodau fod yn ddifrifol, ond maent yn hysbys ac nid ydynt yn digwydd yn aml.

Mae tiwmorau niwroendocrin yn tyfu mewn sawl organ yn y corff. Mae'r tiwmorau yn dechrau mewn celloedd sy'n rhyddhau hormonau i'r llif gwaed (celloedd niwroendocrin). Mae'r tiwmorau'n cael eu lledaenu yn gyffredin o organau eraill i'r afu/iau (metastasis), lle nad yw'n bosibl eu codi â llawdriniaeth o bosibl. Mewn therapi ymbelydredd mewnol dethol (SIRT), caiff sfferau ymbelydrol bychan eu chwistrellu i mewn i'r pibellau gwaed sy'n cyflenwi metastasisau'r afu/iau. Y nod yw lladd celloedd y tiwmor gan achosi cyn lleied o niwed i'r celloedd iach cyfagos â phosibl. Gall fod yn bosibl cael gwared ar y canser, neu os na, gellir defnyddio SIRT i leihau maint y tiwmor, arafu twf y tiwmor neu reoli symptomau syndrom canser gwyllt (casgliad o symptomau a achoswyd gan rai tiwmorau niwroendocrin sy'n rhyddhau hormonau).

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am [roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG](#).

Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [tudalen we y GIG ar diwmorau endocrin](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae [gwybodaeth NICE am ganllawiau lechydTech](#) yn esbonio beth yw lechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae [gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer lechydTech](#) yn esbonio'r hyn y mae trefniadau safonol yn ei olygu.

Gall [Ymddiriedolaeth Afu Prydain](#) (0800 652 7330), roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm [Healthwatch](#) lleol.

ISBN: 978-1-4731-8975-1